# Cynllun Insiwleiddio Prydain (GBIS) a Chynllun Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO)

## Trosglwyddo Datganiad

**This document is also available in English.**

Dylai gosodwyr sydd â diddordeb mewn gweithio yng Nghonwy gysylltu â CBSC fel y cam cyntaf (ecoflex@conwy.gov.uk). Gofynnir i osodwyr lenwi ffurflen 'ymsefydlu' a darparu copïau o'u hachrediadau PAS, MCS a TrustMark. Bydd angen manylion achrediadau is-gontractwyr hefyd.

**Mae CBSC yn cadw cofnod o ddyddiadau terfyn a byddant yn gofyn am fanylion achrediad newydd pan fydd angen. Ni chyflwynir datganiadau i unrhyw osodwr y mae eu hachrediad wedi dod i ben.**

Mewn achosion ble mae deiliad wedi newid eu meddwl ynglŷn â'u gosodwyr ECO/GBIS, a heb ymrwymo i gytundeb cytundebol eto neu gael gosod mesurau, mae'n bosibl y gellir trosglwyddo eu datganiad presennol i osodwr newydd. Cadwch y canlynol mewn cof:

1. Mae gan bob datganiad ei gyfeirnod unigryw ei hun, a adroddir i Ofgem pan gyhoeddir y datganiad. Ni ellir newid dyddiad cymhwysedd yr URN hwn ac mae'n para am 12 mis - felly os byddwch yn ymgeisio i drosglwyddo chwe mis ar ôl y dyddiad cymhwyso, bydd gennych ond chwe mis yn weddill i osod y mesurau gofynnol.

2. Byddem yn disgwyl i holl osodwyr fod wedi arolygu'r eiddo cyn gwneud cais i drosglwyddo datganiad, a byddai angen llenwi ffurflen gais arferol ECO4 a GBIS CBSC a'i lofnodi gan y deiliad a'i dychwelyd i CBSC. Ni fyddem angen tystiolaeth gefnogol (e.e. llythyr GIG neu brawf incwm) ar gyfer trosglwyddo datganiad ar yr un llwybr, ond byddai angen llun adnabod neu brawf o gyfeiriad i'w ddarparu ar gyfer y cais, fel cadarnhad o gyswllt gyda'r deiliad. Ni fyddwn yn cyhoeddi datganiadau newydd ar gyfer newid llwybr.

3. Dylai ffurflen trosglwyddo datganiad ychwanegol gael ei chwblhau a'i llofnodi gan y deiliad, sy'n cadarnhau nad ydynt wedi ymrwymo i unrhyw gytundeb cytundebol neu gael dechrau gosod yn eu heiddo. Bydd hwn yn cael ei groesgyfeirio yn erbyn cofnodion gosod CBSC. Disgwylir i'r deiliad hysbysu eu gosodwr presennol am y newid a chanslo unrhyw gynnydd pellach.

4. Codir y tâl gweinyddol arferol ar y gosodwyr (£150 + TAW) ar gyfer trosglwyddo datganiad, yn amodol ar y telerau arferol.

5. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

   ecoflex@conwy.gov.uk